

Annwyl rieni a gofalwyr,

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar a hefyd trafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol, rwy'n falch o allu rhannu gyda chi y trefniadau ar gyfer dychwelyd cychwynnol disgyblion i safle'r ysgol, gan ddechrau ar Fawrth y 15fed, 2021.

Mae'r Corff Llywodraethol a staff Ysgol Y Strade yn falch o allu croesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol fel yr amlinellir isod.

<b>Dyddiad</b>	<b>Grŵp/(iau) Blwyddyn i fynychu'r ysgol</b>
Dydd Llun, Mawrth y 15fed	Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13
Dydd Mawrth, Mawrth yr 16eg	Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13
Dydd Mercher, Mawrth yr 17eg	Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13
Dydd Iau, Mawrth y 18fed	Blwyddyn 11, Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13
Dydd Gwener, Mawrth y 19eg	Blwyddyn 11, Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13
Dydd Llun, Mawrth yr 22ain	Blwyddyn 10, Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13
Dydd Mawrth, Mawrth y 23ain	Blwyddyn 10, Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13
Dydd Mercher, Mawrth y 24ain	Blwyddyn 7, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
Dydd Iau, Mawrth y 25ain	Blwyddyn 8 a Blwyddyn 11
Dydd Gwener, Mawrth y 26ain	Blwyddyn 9 a Blwyddyn 11

Noder, er y bydd dysgu cyfunol yn parhau i ddisgyblion ar ddiwrnodau pan nad ydyn nhw ar safle'r ysgol, ni fydd rhaglen ar-lein ar gyfer Grwpiau Blwyddyn sy'n gallu mynychu'r ysgol ar unrhyw ddiwrnod penodol (gweler uchod).

Ni fydd ffreutur yr ysgol ar agor yn ystod y cyfnod hwn - bydd gofyn i ddisgyblion ddod â phegyn bwyd er mwyn ei fwyta mewn ardal ddynodedig.

Bydd cludiant i'r ysgol yn gweithredu yn y ffordd arferol. Bydd yr Hwb Gofal sydd wedi bod yn gweithredu yn yr ysgol yn parhau i fod yn agored i'r disgyblion hynny sy'n mynychu ar hyn o bryd.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion yr wythnos nesaf ynghylch ystyriaethau iechyd a diogelwch. Ar yr adeg yma, hoffwn i chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Bydd oedolion yn parhau i gynnal pellter cymdeithasol oddi wrth oedolion eraill a disgyblion.
- Bydd staff a disgyblion yn parhau i ddilyn y systemau unffordd a weithredwyd y tymor diwethaf

- Disgwylir i ddisgyblion gynnal arferion hylendid personol (golchi dwylo, glanweithio ac ati) fel cyn y cyfnod clo diweddaraf.
- Bellach bydd disgwyl i ddisgyblion a staff wisgo gorchuddion wyneb y tu mewn i'r adeilad, **gan gynnwys yn ystod amser gwersi**. Ni fydd disgwyl iddynt wneud hynny pan fyddant y tu allan amser egwyl ac amser cinio. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cynghori y dylai gorchuddion wyneb fod o ddyluniad ac ansawdd penodol. Bydd y rhain yn cael eu darparu i ddisgyblion ar eu diwrnod cyntaf ar y safle. Disgwyliad yr ysgol yw y dylai'r staff a'r disgyblion wisgo'r gorchuddion hyn. **Ni chaniateir defnyddio gorchuddion eraill**. Dylai disgyblion ddod â gorchudd wyneb y maent wedi'i ddefnyddio hyd at y pwynt hwn ar gyfer eu diwrnod cyntaf, gan yr argymhellir bod y gorchuddion wyneb sy'n cael eu cyflwyno gan ysgolion yn cael eu golchi cyn eu defnyddio. Cofiwch ei bod yn orfodol hefyd gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol, gan gynnwys ar y diwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol.

Rydym yn dymuno i ddisgyblion ddychwelyd mewn gwisg ysgol fel rhan o'r broses o ddychwelyd i weithrediad arferol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch gwisg, cysylltwch â Phennaeth Safonau eich mab neu ferch yn y lle cyntaf.

Nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi rhyddhau manylion llawn gofynion presenoldeb ysgolion ar ôl gwyliau'r Pasg. Byddaf yn cysylltu â chi eto yn fuan i roi eglurder pellach ar y mater hwn.

Yn ychwanegol i'r manylion ail-agor, gweler isod grynodedeb o'r dyddiadau allweddol hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd.

### **Dyddiad/ Gweithgaredd**

- 11.3.21 Adroddiad Interim blwyddyn 12/13
- 18.3.21 Noson rieni blwyddyn 12/13
- 19.3.21 Adroddiadau llawn blwyddyn 11
- 25.3.21 Noson rieni blwyddyn 11
- 23.4.21 Adroddiad Interim blwyddyn 10
- 29.4.21 Noson rieni blwyddyn 10
- 21.5.21 Adroddiadau llawn blwyddyn 9
- 27.5.21 Noson rieni blwyddyn 9
- 18.6.21 Adroddiadau llawn blwyddyn 8
- 24.6.21 Noson rieni blwyddyn 8
- 09.7.21 Adroddiadau llawn blwyddyn 7
- 16.7.21 Adroddiadau llawn blwyddyn 10

### **Profi disgyblion o ran COVID-19**

Mae'n debygol bod nifer ohonoch wedi darllen yn y wasg ynglŷn â phrofi disgyblion cyn dychwelyd i'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr awdurdod lleol er mwyn gosod trefniadau yn eu lle ynghylch profi disgyblion. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi yn fuan.

Unwaith eto, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus yn ystod yr amser unigryw a heriol hwn.

Yn gywir

Geoff Evans

Pennaeth